| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**

**TYSTYSGRIF LEFEL MYNEDIAD**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**ENTRY LEVEL CERTIFICATE**

701/01

**Tystysgrif Lefel Mynediad**

**CYMRAEG**

A.M. DYDD LLUN, 19 Mawrth 2007

(1 Awr)

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn.

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau priodol yn y llyfryn hwn.

Atebwch y cwestiynau fel y maent yn ymddangos yn y llyfryn hwn.

### Cwestiynau 4 a 5 yn unig

Os nad ydych yn gallu deall cwestiynau 4 a 5 codwch eich llaw a bydd yr athro yn darllen y cwestiynau i chi.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Ni chewch ddefnyddio geiriaduron.

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**1.** Darllenwch y darnau canlynol yn ofalus ac atebwch y cwestiynau. [4]



Ar draws y byd mae pobl yn adnabod baner Cymru fel Y Ddraig Goch.

*(a)* Beth yw'r enw ar faner Cymru? [½]

..........................................................................................



www.madog.org

**TŶDDEWI**

Tŷddewi yw'r ddinas leiaf yng Nghymru. Mae'n ddinas oherwydd bod Eglwys Gadeiriol yno.

*(b)* Beth yw enw'r ddinas leiaf yng Nghymru? [½]

..........................................................................................

## SIOE FRENHINOL CYMRU

Mae miloedd o bobl yn Llanelwedd bob mis Gorffennaf ar gyfer y Sioe Frenhinol.



www.rwas.co.uk

*(c)* Ble mae'r Sioe Frenhinol bob blwyddyn? [1]




www.bbc.co.uk

## RALI CYMRU

Bob mis Rhagfyr mae gyrwyr gorau'r byd yn dod i Gymru i rasio yn rali Cymru.

*(ch)* Ym mha fis o'r flwyddyn mae rali Cymru? [1]

## AMGUEDDFA SAIN FFAGAN

Mae rhai o hen adeiladau Cymru yn cael eu symud i'r amgueddfa. Agorodd yr amgueddfa ym mis Gorffennaf 1948.



www.cardiff.gov.uk

*(d)* Pryd agorodd Amgueddfa Sain Ffagan? [1]



**Trosodd.**

**2.** Darllenwch **Dewch i Gymru ...** ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [8]

# DEWCH I GYMRU...

## TŴR WRECSAM

Mae tŵr yr eglwys yn enwog am ei fod yn uchel iawn. Mae'n bosibl gweld y tŵr filltiroedd i ffwrdd.






## YR WYDDFA

Mynydd uchaf Cymru. Ar ben y mynydd hwn ar ddiwrnod braf gallwch weld Castell Harlech ac Ynys Môn.

## DŴR TREFFYNNON

Mae rhai yn credu bod y dŵr mor iach yn y ffynnon fel ei fod yn gallu gwella unrhyw salwch.





## PONT LLANGOLLEN

Mae pont brydferth iawn yn Llangollen. Mae'r bont dros afon Dyfrdwy yn hen iawn.

## CLYCHAU EGLWYS GRESFFORDD

Mae sŵn hyfryd gan y clychau ac mae'r eglwys yn fawr ac yn brydferth hefyd.



Lluniau: www.britannia.com/wales

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni:
2 Ffordd Fitzalan, Caerdydd CF24 0UY
02920 499909 **neges@croesocymru.com**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(a)* ........................................ yw mynydd uchaf Cymru. [½]

*(b)* Mae dŵr ........................................ yn iach. [½]

*(c)* Yn ........................................ mae pont brydferth iawn. [½]

*(ch)* Mae Eglwys ........................................ yn fawr ac yn brydferth. [½]

*(d)* Beth sydd yn enwog am y tŵr yn Wrecsam? [1]

..............................................................................................................................................

*(dd)* Enwch **ddau** le y gallwch eu gweld o ben yr Wyddfa ar ddiwrnod braf. [½+½]

(i) ..............................................................................................

(ii) ..............................................................................................

*(e)* Mae pont Llangollen yn croesi afon. Pa afon? [1]

..............................................................................................................................................

*(f)* Beth yw **cyfeiriad, rhif ffôn** a **chyfeiriad e-bost** Croeso Cymru? [3]

| | |
|---|---|
| **Croeso Cymru** | Cyfeiriad:<br>..............................................<br>..............................................<br>.............................................. |
| Rhif ffôn:<br>.............................................. | Cyfeiriad e-bost:<br>.............................................. |

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3.** Darllenwch ddyddiadur Rhodri yn ofalus ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [13]

Dydd Sul

Teimlo'n nerfus heno. Wedi cael swydd yn siop Woolworths yn y dre. Dechrau fory. Methu cysgu.

Dydd Llun

Diwrnod ardderchog! Doedd dim eisiau bod yn nerfus neithiwr. Mr. Jones y rheolwr wedi bod yn garedig iawn yn dangos beth sydd eisiau i fi ei wneud. Fy ngwaith i bob bore yw cario'r bocsys mawr o'r stordy i'r siop a rhoi pethau'n daclus ar y silffoedd. Bob prynhawn bydda i'n gweithio tu ôl i'r til yn helpu cwsmeriaid. Rydw i'n edrych ymlaen at siarad â'r cwsmeriaid ond dw i ddim yn siwr a fydd fy nghefn yn ddigon cryf i gario'r bocsys trwm!

Dydd Mawrth

Bore 'ma daeth lori llawn nwyddau. Fy ngwaith i oedd cario tuag ugain o focsys trwm i'r stordy. Roedd fy mreichiau mewn poen ar ôl cario'r holl bwysau ac roeddwn i wedi blino'n lân cyn cinio. Daeth cwsmer i mewn i'r siop yn y prynhawn oedd yn siarad Cymraeg. Roedd Mr. Jones yn hapus iawn ei fod wedi rhoi'r swydd i fi oherwydd roeddwn i'n gallu siarad Cymraeg gyda'r cwsmer.

Dydd Mercher

Doeddwn i ddim eisiau codi o'r gwely heddiw. Mae fy mreichiau mewn poen o hyd. Fe wnes i esgus fy mod i'n sâl trwy beswch yn uchel ond pan ddywedodd mam y byddwn i'n colli £35 am beidio â bod yn y gwaith, diflannodd y peswch. Rydw i eisiau prynu Playstation newydd ac mae angen pob ceiniog arna i.

Dydd Iau

Sêl wedi dechrau yn y siop! Y lle yn llawn trwy'r dydd ac roedd angen llenwi'r silffoedd yn gyflym. Roedd y siop mor brysur! Dywedodd Mr. Jones y byddai'n talu dwbl i bawb fyddai'n gweithio trwy amser cinio. Dim problem! Fi oedd y cyntaf i gynnig.

Dydd Gwener

Newyddion da am y sêl! Mae'r cant Playstation nesaf yn cael eu gwerthu am hanner pris! Erbyn diwedd y dydd roedd y rhan fwyaf wedi mynd. Ond, newyddion gwych! Mae Mr. Jones wedi addo cadw un i fi nes diwedd yr wythnos nesaf fel gwobr am weithio mor dda trwy'r wythnos. Diolch Mr. Jones... alla i ddim aros nes dydd Llun!

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(a)* Sut roedd Rhodri yn teimlo cyn dechrau ei swydd newydd? [1]

..............................................................................................................................................

*(b)* Beth oedd gwaith Rhodri bob bore? [2]

(i) ..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

*(c)* Ar ba ddydd y daeth y lori? [1]

..............................................................................................................................................

*(ch)* Sut roedd Rhodri yn teimlo ar ôl cario'r bocsys o'r lori? [2]

(i) ..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

*(d)* Pam y mae Mr Jones yn hapus bod Rhodri wedi dechrau gweithio yn y siop? [1]

..............................................................................................................................................

*(dd)* Doedd Rhodri ddim eisiau mynd i'r gwaith ddydd Mercher. Pam? [1]

..............................................................................................................................................

*(e)* Enwch **ddau** beth sy'n digwydd yn y siop ddydd Iau. [2]

(i) ..............................................................................................................................

(ii) ..............................................................................................................................

*(f)* Beth oedd gwobr Rhodri am weithio'n dda trwy'r wythnos? [1]

..............................................................................................................................................

*(ff)* Ysgrifennwch y geiriau hyn yn nhrefn yr wyddor: [2]

rheolwr, blino, gwaith, diflannu, gweithio, peswch

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**4.** Ysgrifennu llythyr [15]



Ysgrifennwch lythyr at Mr. David Jones, rheolwr siop Woolworths, yn gofyn am swydd. Dywedwch:

(i) eich bod chi wedi gadael yr ysgol ac yn chwilio am swydd;
(ii) pa sgiliau neu brofiad gwaith sydd gennych chi;
(iii) pam dylai'r siop roi swydd i chi;
(iv) dywedwch sut gall Mr. Jones gysylltu â chi.

Enw a chyfeiriad y rheolwr:
**Mr. David Jones, Rheolwr Woolworths, 4 Stryd y Frenhines, Bangor LL55 3ST**

**Cofiwch**:

- ysgrifennu eich cyfeiriad chi a chyfeiriad y cwmni;
- ysgrifennu mewn paragraffau.

**Cymerwch ofal wrth osod y llythyr.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**5.** Ysgrifennu stori



Ysgrifennwch **stori** am **UN** o'r lluniau hyn: [10]

**Cofiwch**:
- **ysgrifennu stori ddiddorol;**
- **cynnwys deialog;**
- **sôn am deimladau'r cymeriadau;**
- **ysgrifennu'n gywir.**






**TEITL:** ..........................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*